

Rhif: WG30791



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar y Gostyngiad Arfaethedig ym maint Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Dyddiad cyhoeddi: 11 Ebrill 2017
Camau i'w cymryd: 29 Mehefin 2017

Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn am y cynnig i leihau aelodaeth Bwrdd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Sut i ymateb

I ymateb i'r ymgynghoriad hwn, llenwch y ffurflen ar-lein sydd ar gael yma:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/>
<https://consultations.gov.wales/>

Fel arall, gall ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân a ddarparwyd, a'i hanfon drwy e-bost i

Tirweddau.Landscapes@wales.gsi.gov.uk

Neu anfonwch hi i'r cyfeiriad isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cyfeiriadau gwe ymgynghori

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/>
<https://consultations.gov.wales/>

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Tirweddau a Hamdden Awyr Agored
Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth,
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Tirweddau.Landscapes@wales.gsi.gov.uk

Rhif ffôn: 0300 062 2170

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n fater pwysig inni ei gadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Ymgynghoriad ar y Gostyngiad Arfaethedig ym maint Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Rhagair

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi manylion ynghylch cynnig Llywodraeth Cymru i leihau maint Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o 24 i 18 o aelodau, gan ei gysoni ag awdurdodau parciau cenedlaethol Eryri ac Arfordir Penfro.

Y Cefndir

Mae ardal yn cael ei dynodi yn barc cenedlaethol i gydnabod ei phrydferthwch naturiol a'i rhinweddau eithriadol a'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored. Ceir tri pharc cenedlaethol yng Nghymru: Eryri, Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog. Mae gan bob parc cenedlaethol Awdurdod Parc Cenedlaethol penodedig sydd â dau ddiben statudol a nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995:

- gwarchod a chyfoethogi harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol;
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig [y Parc].

Yn ogystal â cheisio cyflawni'r ddau ddiben statudol hyn, mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol eu cymunedau lleol.

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod baratoi Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun yn nodi'r polisiau ar gyfer rheoli'r Parc ac ar gyfer trefnu a darparu gwasanaethau ac adnoddau gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol er mwyn cyflawni amcanion y Parc Cenedlaethol. Mae'n cynnwys polisiau ar gyfer rheoli'r tir yn y Parc Cenedlaethol ac mae'n sail ar gyfer cydweithredu, nid dim ond gyda sefydliadau cadwraeth statudol a gwirfoddol, ond hefyd gyda thirfeddianwyr cyhoeddus a phreifat eraill. Hefyd, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yw'r awdurdodau cynllunio ar gyfer eu hardaloedd ac maent yn gyfrifol am greu cynlluniau datblygu ac am reoli datblygu.

Mae aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gweithredu fel eiriolwyr ar gyfer amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'n ofynnol i'r rhai a benodir gan yr Awdurdod Lleol gynrychioli buddiannau poblogaeth y parc yn ei gyfanrwydd, nid dim ond buddiannau'r awdurdod lleol sydd wedi eu penodi. Maent yn cyflawni eu swyddogaeth gwneud penderfyniadau drwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd pwyllgorau a gweithgorau, drwy oruchwylio perfformiad a thrwy gydweithio â swyddogion i gyflawni'r amcanion a nodir bob blwyddyn. Maent hefyd yn cynrychioli Awdurdod y Parc ar sefydliadau allanol ac yn cymryd rhan mewn cyfleoedd ar gyfer datblygu'n bersonol a ddarperir gan Awdurdod y Parc.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn glynu at safonau uchel o lywodraethu, ac mae ei fframwaith cynhwysfawr ar gyfer cymorth i aelodau wedi ennill gwobr Siarter Uwch CGGC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau ddwywaith. Mae'n disgwyl lefel uchel o ymrwymiad gan ei aelodau.

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn pennu'r taliadau a wneir i holl aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, y tâl blyneddol, sy'n seiliedig ar 42 o ddiwrnodau o waith gan aelodau, yw £3,600.

Strwythur Presennol ac Aelodaeth

Mae Atodlen 7 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer creu Awdurdod Parc Cenedlaethol. Nodir y trefniadau manwl yn y Rheoliadau. Mae'r Atodlen yn pennu mai corff corfforaethol yw Awdurdod Parc Cenedlaethol y daw ei aelodau, ar gyfer Awdurdodau yng Nghymru, o gynghorwyr yr awdurdod lleol ac o benodiadau gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r awdurdod unedol, sy'n cynnwys yn gyfan neu'n rhannol y Parc Cenedlaethol fel y'i nodir mewn gorchymyn, benodi dwy ran o dair o aelodau'r Awdurdod. Rhaid i Lywodraeth Cymru benodi'r drydedd ran.

Mae Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 yn pennu'r Awdurdodau Unedol sy'n penodi, a'u maint, ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Mae Atodlen 2 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gael 24 o aelodau, gyda 16 ohonynt yn cael eu penodi o saith o'r prif gynghorau, gweler Tabl 1, ac 8 ohonynt yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 18 aelod yr un. Cynyddodd aelodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro o 15 yn sgil Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2007.

Deallir mai'r rheswm gwreiddiol dros gael awdurdod mwy o faint ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog oedd oherwydd bod yr ardal yn cynnwys saith prif awdurdod ac felly, ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol cael nifer mwy o aelodau a benodir gan awdurdodau lleol.

Tabl 1: Penodi aelodau o awdurdodau lleol
Cyngor y brif ardal

	Nifer yr aelodau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	1
Cyngor Sir Caerfyrddin	2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	1
Cyngor Sir Fynwy	2
Cyngor Powys	8
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	1
Cyfanswm	16

Mae Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 wedi'i wneud o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac Atodlen 7 iddi. Roedd y pwerau hynny wedi'u breinio'n wreiddiol yn yr Ysgrifennydd Gwladol ond trosglwyddwyd nhw i'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999 ac wedi hynny i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae adran 75 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol gwneud Gorchymyn drwy offeryn statudol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad drwy'r weithdrefn negyddol. Felly, erbyn hyn, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer gweithredol angenrheidiol i ddiwygio Gorchymyn 1995 er mwyn newid maint Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Yr Achos o blaid Newid

Ym mis Medi 2014, gofynnodd John Griffiths AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd, i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i 7 awdurdod unedol penodol am eu barn ynghylch leihau aelodaeth Awdurdod y Parc i 18.

Roedd y cynnig hwn yn awgrymu 4 penodiad yn llai gan awdurdodau unedol a 2 benodiad yn llai gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn cadw'r gymhareb o ddau benodiad gan awdurdod unedol i bob un penodiad gan Weinidogion Cymru. Er bod y rhan fwyaf ohonynt o blaid cefnogi bwrdd llai a chynnal y gymhareb, nid oedd cytundeb o ran nifer y cynrychiolwyr o bob un o'r saith Awdurdod Lleol.

Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2016, pleidleisiodd bwrdd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn unfrydol i ysgrifennu at Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, i argymhell bod Llywodraeth Cymru "*....yn lleihau aelodaeth bwrdd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o 24 i 18 gan gadw cynrychiolaeth o bob un o'r 7 awdurdod unedol presennol*".

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn teimlo y gellir, gyda 18 aelod, adolygu y strwythur pwyllgorau er mwyn sicrhau cywirdeb y broses gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd. Mae bwrdd llai hefyd yn gyson â llywodraethu da a byddai'n arwain at effeithlonrwydd a mwy o ffocws ar fusnes Awdurdod yr Parc. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn ailstrwythuro'r modd y mae'n darparu ei wasanaethau. Byddai strwythur gwneud penderfyniadau sy'n llai o faint yn defnyddio amser aelodau a staff yn fwy effeithiol yn ogystal â gwneud arbedion pellach o ran treuliau teithio a chynhaliaeth aelodau. Gall yr amser hwn gael ei ddefnyddio wedyn i ddatblygu partneriaethau i gyflawni amcanion, gyda mwy o bwyslais ar rôl yr Aelod Eiriolwr i gynyddu arbenigedd aelodau a chryfhau'r cylch gwaith llysgenhadol. Mae'r Awdurdod yn cynnal archwiliad sgiliau aelodau i nodi unrhyw sgiliau allweddol sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn ystyried bod cost ei fwrdd yn faich diangen iddo o'i gymharu â'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall, ac mae'n ffyddiog y gall gynnal llywodraethu da gyda bwrdd llai.

Mae'r Awdurdod yn amcangyfrif y byddai lleihau maint y bwrdd yn sicrhau arbedion o £40,000 y flwyddyn. Gwneir hyn drwy arbedion uniongyrchol y cyflog a delir i aelodau, yn ogystal â llai o gostau cynefino/hyfforddiant a threuliau teithio.

Tabl 2: Arbedion a amcangyfrifir ar gyfer bwrdd llai

	Cost flynyddol bresennol (24)	Arbedion drwy Fwrdd llai (18)
Cyflog Sylfaenol	£86,400	£21,600
Cynefino (costau gwirioneddol a chostau staff)	£34,472	£8,572
Costau teithio (arbedion yn seiliedig ar filltiroedd cyfartalog am 30 o gyfarfodydd y flwyddyn)	£16,000	£9,720
Cyfanswm	£136,872	£39,892

Gall lleihau nifer yr aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru hefyd olygu ymarferion recriwtio llai aml gan arwain at arbedion ariannol ac arbedion amser swyddogion sy'n gysylltiedig â recriwtio, megis cost hysbysebion.

Yn ei lythyr at Ysgrifennydd y Cabinet nododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gynigion manwl ynghylch y ffordd o gyflawni hyn. Mae ei gynnis yn cadw penodiadau o bob un o'r awdurdodau unedol presennol gan barchu'n gyffredinol hefyd y gymhareb bresennol o ran y prif gyngor a leolir yn y Parc.

Y cynnig

Y cynnig yw lleihau aelodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o 24 i 18 aelod. Bydd hyn yn golygu lleihau nifer aelodau'r Awdurdodau Lleol o 16 i 12, fel y nodir yn Nhabl 2, a lleihau'r nifer a benodir gan Weinidogion Cymru o 8 i 6.

Tabl 3: Lleihad arfaethedig yn nifer aelodau'r awdurdodau lleol

Enw'r Cyngor	Cyfredol	Arfaethedig	Newid
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	1	1	-
Cyngor Sir Caerfyrddin	2	1	-1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	1	1	-
Cyngor Sir Fynwy	2	1	-1
Cyngor Powys	8	6	-2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	1	1	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	1	1	-
Cyfanswm	16	12	-4

Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd barn ac unrhyw dystiolaeth mewn cysylltiad â'r cynnig yn yr ymgynghoriad hwn erbyn 29 Mehefin 2017. Yn benodol, hoffem weld eich sylwadau ar y cwestiynau a nodir ar y "Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad" isod. Yn ogystal, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cysylltu â rhanddeiliaid i geisio eu barn a fydd hefyd yn cael ei chynnwys yng nghrynodeb yr ymgynghoriad.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Beth yw eich barn chi?

Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cynnig yn y ddogfen hon. Yn benodol, byddem yn croesawu eich ymatebion i'r cwestiynau a ganlyn:

Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am y cynnig i leihau aelodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o 24 i 18?

Cwestiwn 2: Beth yw eich barn am y cynnig arfaethedig i rannu aelodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog rhwng y saith prif awdurdod a Gweinidogion Cymru fel y nodir yn Nhabl 3?

Cwestiwn 3: Hoffem gael eich barn am y ffordd y gall lleihau aelodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog effeithio ar y Gymraeg, yn benodol ynglŷn â

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a
- ii) trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Yn eich barn, beth byddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 4: Nodwch hefyd sut y credwch y gellir llunio'r camau gweithredu arfaethedig neu eu newid fel y gallant

- i) effeithio'n gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
- ii) sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 5: Rydym wedi gofyn dau gwestiwn penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi eu crybwyll yn benodol, nodwch nhw yma:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: